**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our : ref MA - L/CG/0592/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@assembly.wales

26 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick,

Mae adolygiad o raglen Llywodraeth y DU o OSau Ymadael â'r UE mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru wedi'i gynnal ac rwyf yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y datblygiadau.

Wedi i gydsyniad gael ei roi gan Weinidogion Cymru ar gyfer dau OS o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol ac wedi i gyfnod o amser fynd heibio, mae wedi dod i'r amlwg i'w henwau gael eu newid cyn iddynt gael eu gosod yn Senedd y DU. Ni hysbyswyd Llywodraeth Cymru am y newidiadau hyn gan Whitehall. Oherwydd hyn, ni wnaeth y system yr oeddem wedi'i sefydlu i olrhain gosod OSau'r DU mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol amdanynt o dan Reol Sefydlog 30C, nodi eu bod wedi cael eu gosod a chychwyn y broses hysbysu.

Yr OSau o dan sylw yw:

- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE); 2019
- Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Diwygio a Phŵer i Addasu) (Ymadael â'r UE) 2018.

Fodd bynnag, er i deitlau'r OSau hyn newid, gallaf gadarnhau na wnaeth y cynnwys yr oedd Gweinidogion Cymru wedi cydsynio af eg newid ac rydym yn achub y cyfle hwn i hysbysu'r Cynulliad am yr OSau. Oherwydd y newid i'r teitlau, a gan nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi gwybod i ni yn gyffredinol bod OSau yn cael eu gosod, roedd yn amhosibl adnabod y rheoliadau hyn yng nghyd-destun y swm sylweddol o is-ddeddfwriaeth dan ystyriaeth ar y pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Daeth yr adolygiad o hyd i OS pellach gan y DU mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru yr hoffwn dynnu eich sylw ato, sef Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018. Cafodd yr OS ei osod yn Senedd y DU ar gyfer sifftio cyn y cytunwyd ar y newidiadau i’r Rheolau Sefydlog, gan arwain at 30C. Er hynny, cafodd cydsyniad i'r OS hwn ei geisio a'i roi a byddwn yn hysbysu'r Cynulliad am hyn hefyd.

Mae hyn yn cwblhau'r wybodaeth am OSau'r DU ar gyfer ymadael â’r UE mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru a osodwyd gerbron Senedd y DU cyn y diwrnod ymadael a ragwelwyd sef 29 Mawrth.

Hoffwn ddiolch ichi eto am ddiwydrwydd eich Pwyllgor wrth graffu ar raglen OSau Cymru a'r UE sy'n deillio o'r amgylchiadau eithriadol mewn perthynas â Brexit. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor ar y materion hyn wrth i'r diwrnod ymadael nesáu a mynd heibio.

Rwyf yn amgáu'r datganiadau ysgrifenedig ar y tri OS uchod gyda'r llythyr hwn er hwylustod a byddwn yn gosod y rhain gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister